



Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)

Nod polisi YGG Grŵp Cynefin yw:

“...galluogi tenantiaid a’r rhai sy’n byw gerllaw ein tenantiaid i fyd yn heddychlun a diogel yn eu cartrefi eu hunain.”.

Datganiad

- tenantiaid sy’n gyfreithiol gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain ac am weithredoedd eu hymwelwyr ac unrhyw un sydd ar yr aelwyd
- ni fydd y Gymdeithas yn goddef gweithredoedd o niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol, aflonyddu hiliol, trosedd casineb neu drais a cham-drin yn y cartref
- bydd y Gymdeithas yn defnyddio ei hadnoddau i ymateb i gwynion am YGG a’i datrys
- byddwn yn gweithredu ar ran tenantiaid a staff sy’n dioddef niwsans neu YGG, ac fe wnawn weithredu yn erbyn tramgwyddwyr, boed yn denantiaid i ni neu beidio
- yr ydym wedi ymrwymo i weithio gyda dioddefwyr i helpu i gael ymateb ar y cyd i drin digwyddiadau o YGG a sicrhau y cefnogir dioddefwyr yn llawn yn y broses
- byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill e.e. Yr Heddlu
- byddwn yn cynnig cefnogaeth i’r dioddefwyr a thystion, ac yn yr un modd, cynnig cyfeirio’r dioddefwyr am gefnogaeth, lle’r ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny

Yn dilyn adrodd achos YGG, bydd yr achwynydd yn derbyn llythyr cydnabod yn cynnwys: rhif yr achos a manylion y swyddog sy’n gyfrifol am yr achos, gwybodaeth am y broses/amser ddylai’r achos gymryd i’w ymchwilio a dyddiadur digwyddiad (os oes angen).

Categori 1

Ymddygiad sy’n arwain at drais neu ddigwyddiadau gwirioneddol neu fygythiad ohonynt sydd yn debyg o achosi anaf difrifol.

e.e. ymosodiad, ymddygiad bygythiol/difenwol

Gweithred	Targed (o’r dyddiad adrodd am yr achos)
Cydnabod y gŵyn	O fewn 1 diwrnod gwaith
Ymweld â’r achwynydd/tyst	
Ymweld â’r troseddwr	O fewn 3 diwrnod gwaith
Ymchwilio a gwneud asesiad ar y cyd (os oes angen)	O fewn 5 diwrnod gwaith

Hysbysu o'r canlyniad	O fewn 10 diwrnod gwaith
-----------------------	--------------------------

Categori 2

(cydnabod y gwyn o fewn: 2 diwrnod gwaith)

Ymddygiad sy'n fwriadol, wedi ei dargedu ac efallai yn barhaus gyda'r bwriad o godi ofn, dychryn, neu niweidio unigolyn neu achosi difrod i'w eiddo.

e.e. aflonyddu (difenwi geiriol, meddwdod, galwadau teliffon/llythyrau difenwol), digwyddiadau yn y cartref.

Gweithred	Targed (o'r dyddiad adrodd am yr achos)
Cydnabod y gwyn	O fewn 2 diwrnod gwaith
Ymweld â'r achwynydd / troseddwr honedig	O fewn 5 diwrnod gwaith
Ymchwilio a hysbysu o'r canlyniad	O fewn 15 diwrnod gwaith

Categori 3

(cydnabod y gwyn o fewn: 3 diwrnod gwaith)

Ymddygiad neu weithredoedd a ystyrir yn dor-cytundeb tenantiaeth, er nad ydynt yn bwriadu achosi niwsans neu annifyrrwch.

e.e. niwsans sŵn/cerbydau/anifeiliaid/cyffredinol, gerddi blêr, difrod anfwriadol i eiddo, sbwriel/thipio anghyfreithlon

Gweithred	Targed (o'r dyddiad adrodd am yr achos)
Cydnabod y gwyn	O fewn 2 diwrnod gwaith
Ymweld â'r achwynydd / troseddwr honedig	O fewn 10 diwrnod gwaith
Ymchwilio a hysbysu o'r canlyniad	O fewn 20 diwrnod gwaith

Os nad yw'r Gymdeithas yn medru delio â'r achos yna caiff ei gyfeirio at asiantaeth perthnasol. Mae ystadegau YGG yn cael eu monitor yn fisol gan y Tîm Lletya ac yn cael eu rhannu â'r Tîm Arweinyddiaeth, Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau a'r Bwrdd Rheoli pob chwarter/6 mis/blwyddyn.